# YMUNWCH Â NI

## Cyswllt Dysgu a Datblyguar

## PECYN GWYBODAETH I YMGEISWYR

Gwasanaeth Tân ac Achub
De Cymru

South Wales
Fire and Rescue Service

RAISING AWARENESS - REDUCING RISK

# PWY YDYM NI

**“I WNEUD DE CYMRU'N DDIOGELACH, TRWY LEIHAU RISG”**

Ni yw Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru a’n gweledigaeth, ein cenhadaeth a’n gwerthoedd sy’n gyrru ac yn cymell ein pobl i wneud de Cymru’n fwy diogel, drwy leihau risg. Ein nod yw amddiffyn a gofalu am y 10 Awdurdod Unedol sy'n creu ein hardal amrywiaethol trwy weithio mewn partneriaeth â chydweithwyr gwasanaethau rheng flaen eraill

Rydym yn cyflogi tua 1700 o bobl ar draws De Cymru mewn cymysgedd o rolau Gweithredol a Chorfforaethol, gyda’r rhan fwyaf o’n staff corfforaethol wedi’u lleoli yn ein pencadlys yn Llantrisant.

Cefnogir y gwasanaethau rheng flaen a ddarperir gan Staff Gweithredol Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru gan nifer o dimau, sy'n cyflawni rolau gweinyddol a thechnegol. Mae Staff Gweithredol a Chorfforaethol yn cydweithio'n agos i ddarparu lefel uchel o wasanaeth i gymunedau De Cymru

Mae Amrywiaeth, Cynhwysiant, Cydlyniant a Thegwch yn flaenoriaeth i Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru ac mae gennym ymrwymiad i ymdrechu i adlewyrchu'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu.

# PROFFIL SWYDD

**Gwnewch gais erbyn: 9 Mai 2025**

**Rhagwelir y bydd y rhestr fer yn digwydd: Wythnos yn dechrau 12 Mai 2025**

**Rhagwelir y cynhelir cyfweliadau: Wythnos yn dechrau 19 Mai 2025**

Mae swydd i Gyswllt ar gyfer Dysgu a Datblygu wedi codi o fewn y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Pobl yng Ngwasanaeth Tân ac Achub De Cymru. Lleolir yswydd hon ym Mhencadlys GTADC yn Llantrisant, mae'r swydd lawn amser hon (37 awr) yn gyfle cyffrous i Hyfforddwr / gweithiwr proffesiynol Dysgu a Datblygu profiadol ymuno â thîm gwych sy'n ceisio trawsnewid y cyfleoedd datblygu ar gyfer holl weithwyr y Gwasanaeth ar hyn o bryd.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gyfrifol am ddarparu hyfforddiant a dysgu proffesiynol a datrysiadau datblygu i weithwyr GTADC ar hyd eu gyrfa gyflogedig gan gynnwys y cyfnod sefydlu a thrwy gydol eu llwybrau datblygu. Bydd y swydd hefyd yn canolbwyntio ar hyfforddiant cynhwysiant a digwyddiadau ymgysylltu, gan sicrhau bod holl weithgareddau'r tîm yn symud ymlaen ac yn hyrwyddo cynlluniau ymgysylltu â gweithwyr y Gwasanaeth a'r cynllun Tân Cynhwysol. Rhaid i ymgeiswyr llwyddiannus allu dangos sgiliau cynllunio a chyflwyno rhagorol a meddu ar angerdd i hyrwyddo diwylliant mwy cynhwysol a thrawsnewidiol ar draws y Gwasanaeth.

- **Cytundeb:** Parhaol
- **Gradd:** 9
- **Cyflog:** £33,366 – £35,235
- **Cyfeirnod Swydd:** 505451
- **Lleoliad:** Llantrisant

# SWYDD-DDISGRIFIAD

**Cyfeiria'r swydd-ddisgrifiad hwn at brif bwrpas a chyfrifoldebau'r swydd. Nid yw hyn o reidrwydd yn nodi mewn manylder yr holl dasgau sydd eu hangen i gyflawni'r cyfrifoldebau hyn. Adolygir y swydd-ddisgrifiad hwn fel bo'r gofyn i sicrhau ei fod yn cwrdd ag anghenion busnes y Gwasanaeth**

**Dyletswyddau Cyffredinol:**

- Gweithio ar y cyd â rhanddeiliaid eraill o fewn y tîm Dysgu a Datblygu ac o fewn y sefydliad yn gyffredinol i gynorthwyo i gyflawni cynlluniau Tîm, Adran a Chyfarwyddiaeth.
- Darparu ymagwedd bartneriaeth i bob rheolwr llinell ac arweinydd adran o ran cynghori a gweithredu datrysiadau dysgu, datblygu ac asesu effeithiol a pherthnasol ar gyfer anghenion hyfforddi penodol.
- Paratoi a darparu ystadegau ac adborth/adroddiadau cyffredinol i Bennaeth Gwasanaethau Pobl a'r Partner Busnes Dysgu a Datblygu ar yr holl weithgareddau a metrigau Dysgu a Datblygu gofynnol yn ôl yr angen e.e. faint a hyfforddwyd, canlyniadau gwerthuso a gwariant ar hyfforddiant ac ati.
- Cyflawni'r holl ffrydiau gwaith DaD wrth gynnal a chyflawni holl bolisïau a gweithdrefnau'r sefydliad h.y. gan ystyried deddfwriaeth diogelu data'r Gwasanaeth, deddfwriaeth Cydraddoldeb ac amrywiaeth gan barchu cyfrinachedd yn holl weithgareddau DaD.
- Cynnal dealltwriaeth o newidiadau allweddol o fewn meysydd proffesiynol Dysgu, Datblygu ac Asesu ehangach a chefnogi gweithrediad, arferion newydd ac arloesol yn unol â datblygiad pobl a sefydliadol y Gwasanaeth.
- Hyrwyddo diwylliant o ddysgu yn barhaus ar draws GTADC a dangos ymrwymiad parhaus i'ch datblygiad personol parhaus eich hun ac eraill.
- Hyrwyddo diwylliant cadarnhaol a chynhwysol yn barhaus o fewn GTADC, gan ganolbwyntio ar wreiddio gwerthoedd GTADC ac egwyddorion arfer gorau o ran Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, a thrwy hynny hyrwyddo GTADC fel cyflogwr o ddewis.
- Cefnogi unigolion ar draws y Gwasanaeth trwy ddarparu sesiynau hyfforddi cyfrinachol.

**Cyflwyno Sgiliau Cyffredinol:**

- Creu a darparu hyfforddiant effeithiol, amserol a pherthnasol i bob gweithiwr trwy gydol eu cylch bywyd cyflogaeth. Bydd yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i):
- Datblygu, rhaglennu a chyflwyno holl gyrsiau sefydlu GTADC ar gyfer yr ystod lawn o staff GTADC h.y. Llyfr Llwyd a Gwyrdd.
- Nodi anghenion dysgu cyffredinol allweddol ar draws y sefydliad a darparu atebion dysgu a datblygu creadigol i sicrhau bod gan staff GTADC y sgiliau, y wybodaeth a'r hyfforddiant angenrheidiol i gyflawni eu rolau'n effeithiol.
- Datblygu/caffael, cynllunio, cyflwyno a gwerthuso Dosbarthiadau Meistr GTADC, i gefnogi'r holl weithwyr gyda chynnig DaD ehangach mewn nifer o feysydd hyfforddiant craidd.
- Nodi a darparu hyfforddiant Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (CAC) e.e. Tuedd Anymwybodol, Diwylliant Cynhwysol, Hyfforddiant Meddwl ac ati, gan sicrhau bod yr hyfforddiant CAC perthnasol yn cael ei ddarparu i unigolion ar yr adeg briodol o fewn eu cylch bywyd gyrfa.
- Ymchwilio, creu a chyflwyno rhaglenni hyfforddi newydd yn unol ag anghenion datblygu sefydliadol.
- Sicrhau Ansawdd Parhaus yr holl hyfforddiant trwy gynnal dulliau effeithiol o werthuso hyfforddiant ac adborth, adolygu ac adrodd ar ganlyniadau allweddol yn ôl yr angen.

**Datblygu Arweinyddiaeth a Dilyniant:**

- Darparu cefnogaeth gyffredinol i bob gweithiwr sy'n ceisio datblygu fel arweinwyr GTADC yn y dyfodol gan gyfeirio (lle bo'n briodol) at gyfleoedd hyfforddi perthnasol a gwybodaeth bellach ynghylch dilyniant a datblygiad.
- Gan weithio tuag at nodau strategol Dysgu a Datblygu ehangach ac o dan arweiniad y Partner Busnes DaD, bydd y swydd yn cymryd cyfrifoldeb ar y cyd (gyda Sgiliau Cyffredinol a Thechnegol Cydymaith DaD) am ddatblygu, darparu a gwerthuso'r holl Hyfforddiant Datblygu Arweinwyr Goruchwylio, boed yn cael ei ddarparu trwy arferion mewnol a/neu drwy ddarpariaeth allanol.
- Cefnogi’r holl brosesau sy’n gysylltiedig ag egwyddorion dilyniant y Gwasanaeth h.y. prosesau Asesu a Datblygu, hyfforddiant Cyfweld a Dethol, sesiynau sgiliau astudio Arholiadau Technegol, ac ati.

**Ymgysylltu a Chynhwysiant Gweithwyr**

- Cefnogi a gwella ymgysylltu gweithwyr trwy gydlynu, hyrwyddo a darparu diwrnodau ymgysylltu ar lefel ganol, goruchwylio a threfniadol.
- Cefnogi'r Gwasanaeth gydag unrhyw weithgareddau ymgysylltu ad-hoc a gynhelir ar draws y sefydliad.
- Gweithredu fel arweinydd allweddol y Tîm Dysgu a Datblygu wrth yrru'r Cynllun Gwaith Gwasanaethau Cynhwysol yn ei flaen, gan fonitro a datblygu'r holl gamau gweithredu Dysgu a Datblygu yn ôl yr angen.
- Cefnogi'r timau ymgysylltu o fewn Gwasanaethau Pobl i hyrwyddo cynhwysiant trwy sianeli cyfathrebu mewnol GTADC, cyfryngau cymdeithasol a digwyddiadau.
- Cefnogi a hwyluso’r gwaith o gydgysylltu’r holl gyfleoedd dysgu ychwanegol e.e. Ysgolion Haf a Gaeaf Academi Cymru, teithiau cyfnewid ar draws arweinwyr ac ati. Hyrwyddo digwyddiadau a chydlynu mynychwyr yn ôl yr angen.
- Cefnogi’r Cydymaith DaD (Perfformiad ac Asesu) i adolygu a hwyluso ceisiadau sy’n ymwneud â Chronfa Dysgu Ychwanegol y Gwasanaeth.

**Dyletswyddau Ychwanegol**

- Cefnogi holl nodau strategol GTADC trwy ymchwilio, datblygu a darparu unrhyw hyfforddiant ad-hoc sydd ei angen i gefnogi gweithgareddau'r Gwasanaeth.
- Gwneud y defnydd mwyaf posibl o dechnoleg i gyflwyno datrysiadau DaD i weithwyr ar draws y gwasanaeth, e.e. drwy wasanaethau TG effeithiol mewn perthynas â Gwerthusiadau, E-ddysgu ac ati.
- Ceisio’n barhaus i wella systemau i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yr holl brosesau DaD ymhellach.
- Cynorthwyo gyda chadw cofnodion cyfrifiadurol cywir o'r holl weithgareddau datblygu staff.
- Hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant, iechyd, diogelwch a lles gweithwyr mewn perthynas â holl faterion cyflogaeth.
- Cynrychioli'r Gwasanaeth (yn ôl y gofyn) ym mhob digwyddiad, cyfarfod a briffio Dysgu a Datblygu.

**Yn ychwanegol at y dyletswyddau a'r cyfrifoldebau a amlinellir uchod, bydd gofyn i ddeiliad y swydd:**

1. Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau eraill sy'n gymesurol â'u gradd a'u swydd.
2. Mynychu cyrsiau hyfforddi mewnol ac allanol yn ôl y gofyn.
3. Cydweithredu'n llawn ag unrhyw gynllun neu gynllun peilot a gyflwynir o fewn yr adran neu ar draws y Gwasanaeth.
4. Cymhwyso egwyddorion Gweithdrefn Urddas yn y Gweithle Datganiad Cydraddoldeb ac Amrywiaeth y Gwasanaeth wrth gyflawni'u dyletswyddau.
5. Amddiffyn plant, pobl ifanc neu oedolion sydd mewn perygl rhag niwed, gan adrodd unrhyw bryderon diogelu wrth ddefnyddio Gweithdrefn Ddiogelu'r Gwasanaeth.
6. Ufuddhau i Ddeddfwriaeth a Gweithdrefnau Iechyd a Diogelwch a chymryd gofal rhesymol mewn perthynas â'u hiechyd a diogelwch eich hunan ac eraill.

# Y FANYLEB PERSON

**HANFODOL**

Cymwysterau:

- Cymhwyster Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu level (CIPD) lefel 5 neu uwch A / NEU Gymhwyster dysgu TAR NEU gymhwyster cymesur A / NEU Brofiad o gyflwyno hyfforddiant a chyflwyniadau ar raddfa fawr i amrywiaeth o gynulleidfaoedd

Gwybodaeth / Profiad:

- Profiad o greu, darparu a gwerthuso datrysiadau dysgu a datblygu a/neu becynnau hyfforddi
- Gwybodaeth am yr egwyddorion a'r arferion gorau mewn perthynas â Materion Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn y gweithle
- Profiad o weithio gydag ystod o ddarparwyr allanol a/neu adrannau mewnol i greu atebion sefydliadol
- Profiad ymarferol o becynnau Microsoft Office h.y. Outlook, Word, Excel, Powerpoint

Arddull Bersonol:

- Y gallu i groesawu a gwerthfawrogi amrywiaeth a dangos agwedd deg a moesegol ym mhob sefyllfa
- Y gallu i fod yn rhagweithiol wrth hyrwyddo newid a chwilio am gyfleoedd i wella effeithiolrwydd sefydliadol.
- Y gallu i gynnal agwedd hyderus a hydwyth mewn sefyllfaoedd heriol dros ben.
- Rhagweithiol wrth hyrwyddo newid, a'r gallu i chwilio am gyfleoedd i hyrwyddo gwell effeithiolrwydd sefydliadol

Rhyngbersonol:

- Y gallu i arwain, cynnwys ac ysgogi eraill o fewn y Gwasanaeth Tân ac Achub ac yn y gymuned.
- Y gallu i gyfathrebu ar lafar ac yn ysgrifenedig i ystod eang o gynulleidfaoedd
- Ymrwymiad i'ch hunan, unigolion a thimau a'r gallu i'w datblygu er mwyn gwella effeithiolrwydd sefydliadol

Tasg:

- Y gallu i gynnal ymwybyddiaeth weithredol o'r amgylchedd i hyrwyddo gweithio diogel ac effeithiol
- Y gallu i arwain grwpiau i gyflawni rhagoriaeth trwy sefydlu, cynnal a rheoli gofynion perfformiad.
- Y gallu i greu a gweithredu cynlluniau tîm neu broses effeithiol yn unol ag amcanion y sefydliad.

**DYMUNOL**

Cymwysterau:

- Aelodaeth Broffesiynol CIPD
- ILM 5 neu gymesur mewn ymarfer hyfforddi neu fentora

Gwybodaeth /Profiad:

- Gallu siarad Cymraeg

**D.S. Mae'r rôl hon yn cynnwys teithio'n aml rhwng safleoedd ledled De Cymru. Rhaid bod yr ymgeisydd llwyddiannus yn gallu teithio'n annibynnol**

# Y BROSES YMGEISIO

**Dylai ymgeiswyr lenwi ein ffurflen tystiolaeth llunio rhestr fer.**
**Dylai hwn fynd i’r afael â’r cwestiynau isod gydag ymateb nad yw’n fwy na 500 gair fesul cwestiwn (Uchafswm 2000 Gair)**

**Cwestiwn 1: Amlinellwch eich profiad o ymchwilio, creu, cyflwyno a gwerthuso atebion dysgu a datblygu a/neu becynnau hyfforddi**

**Cwestiwn 2: Rhowch enghraifft o sut rydych chi wedi gweithio gyda darparwyr allanol neu adrannau mewnol i ddatblygu atebion sefydliadol effeithiol.**

**Cwestiwn 3: Nodwch dystiolaeth o'ch rhagweithioldeb wrth hyrwyddo newid, a'r gallu i chwilio am gyfleoedd i hyrwyddo gwell effeithiolrwydd sefydliadol.**

**Cwestiwn 4: Rhowch enghraifft sy’n dangos eich gallu i gynnal agwedd hyderus a gwydn mewn sefyllfaoedd hynod heriol.**

**Cwestiwn 5: Nodwch eich ymrwymiad a'ch gallu i ddatblygu'ch hunan, unigolion a thimau i wella effeithiolrwydd sefydliadol.**

# SUT I YMGEISIO

**Ymgeiswyr Allanol**

Mewngofnodwch i'n gwefan yn: www.decymru-tan.gov.uk/gweithio-â-ni/-swyddi-gwag

Dewiswch y rôl o'r 'Swyddi Gwag Presennol' a chliciwch ar y ddolen ar gyfer ein system e-recriwtio.

Sicrhewch fod pob adran o'r ffurflen gais wedi'i chwblhau a chofiwch atodi'r wybodaeth ategol sy'n manylu ar eich cymhwysedd ac sy'n mynd i'r afael yn uniongyrchol â meini prawf y rhestr fer.

**Ymgeiswyr Mewnol**

Mewngofnodwch i People XD/Core a llywio i 'swyddi gweigion cyfredol' i ddewis y swydd berthnasol. Sicrhewch fod pob adran o'r cais wedi'i chwblhau a chofiwch atodi'r wybodaeth ategol sy'n manylu ar eich cymhwysedd ac sy'n mynd i'r afael yn uniongyrchol â meini prawf y rhestr fer.

**Pob Ymgeisydd**

Os oes angen y ddogfen hon arnoch mewn fformat arall, megis print bras neu gefndir gwyn neu liw, neu fel arall angen ffurflen gais bapur, cysylltwch â'n tîm Recriwtio yn recriwtio@decymru-tan.gov.uk neu ffoniwch ni ar 01443 232300 a byddwn yn ymdrechu i helpu cyn gynted â phosibl.

Mae'r holl ddogfennaeth ar gael yn Gymraeg a Saesneg ill dau a chroesawn gyfathrebiadau yn y naill iaith â'r llall. Ni chaiff ceisiadau a gyflwynir yn Gymraeg eu trin yn llai ffafriol. Rhoddir cyfle i ymgeiswyr sy'n llwyddiannus yn y cam Rhestr Fer i gadarnhau eu dewis iaith ar gyfer cyfweliadau ac asesiadau (gan gynnwys gwaith papur, cyflwyniadau ar lafar a chwestiynau cyfweld). Bydd trefniadau yn cael eu cadarnhau yn dilyn y gwahoddiad i gyfweliad ac fe all gynnwys Cyfieithydd a Chyfieithu/neu Gyfieithu ar y Pryd

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru'n credu yng ngwir werth gweithlu amrywiol ac rydym yn dymuno annog yn rhagweithiol ymgeiswyr o bob sector cymdeithas i ymgeisio.

# **GWYBODAETH YCHWANEGOL**

**Gwiriadau Recriwtio Allanol**

**Bydd yr holl ymgeiswyr allanol yn destun y gwiriadau recriwtio canlynol cyn eu penodi:**

- Gwiriadau manylach y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).
- Gwiriadau hawl i weithio.
- Gwiriadau meddygol, iechyd a ffitrwydd.
- Gwiriadau trwydded yrru.
- Gwiriadau Tystlythyron.

## Cod Moeseg Craidd CCPT

**RHOI EIN CYMUNEDAU YN GYNTAF:** Rydym yn blaenoriaethu lles y cyhoedd, y gymuned a defnyddwyr gwasanaeth.




**UNIONDEB:** Rydym yn gweithredu gydag uniondeb, gan gynnwys bod yn agored, yn onest ac yn gyson ym mhopeth a wnawn.

**URDDAS A PHARCH:** Gwneud penderfyniadau'n wrthrychol ar sail tystiolaeth, heb wahaniaethu na thuedd.

**ARWEINYDDIAETH:** Rydym i gyd yn fodelau rôl cadarnhaol, bob amser yn dangos hyblygrwydd ac arweinyddiaeth hydwyth. Rydym i gyd yn atebol am bopeth a wnawn ac yn herio pob ymddygiad nad yw'n cyrraedd y safonau uchaf.

**CYDRADDOLDEB, AMRYWIAETH A CHYNHWYSIAD:** Rydym yn cydnabod ac yn hyrwyddo gwerth CAC yn barhaus o fewn GTADC a'r cymunedau ehangach yr ydym yn eu gwasanaethu. Rydym yn sefyll yn erbyn pob math o wahaniaethu, yn creu cyfle cyfartal, yn hyrwyddo cydraddoldeb, yn meithrin cysylltiadau da ac yn dathlu gwahaniaeth.

**Dyma'r sylfaen ar gyfer ein gwerthoedd yng Ngwasanaeth Tân ac Achub De Cymru a bydd yn ein helpu i greu amgylchedd sy'n groesawgar, yn oddefgar ac yn ddiogel, heb unrhyw le i ymddygiadau amhriodol a chamau gweithredu sy'n bygwth, amharchu neu'n dychryn eraill**

.

# BUDDION

**Gwyliau Blynyddol** – Lwfans gwyliau blynyddol hael.

**Rhaglen Cymorth i Weithwyr -** Mae'r RhGG yn darparu cyngor a chymorth cyfrinachol, diduedd 24 awr y dydd, 365 diwrnod y flwyddyn. Mae'r gwasanaeth yn rhad ac am ddim i weithwyr gael mynediad iddo pryd bynnag y bo angen.

**Vivup –** Darparwr buddion gweithwyr sydd wedi ennill gwobrau ac sy'n cynnig pentwr o fanteision ac arbedion iechyd a lles i'r holl staff ar draws nifer o frandiau mawr.

Mae rhai o fanteision y platfform hwn yn cynnwys:

- **Cynllun Seiclo i'r Gwaith**
- **Cynllun ceir Tusker**
- **Gostyngiad nwyddau i'r cartref a nwyddau electroneg**

**Oriau Gwaith Hyblyg –** Mae staff corfforaethol yn gallu gweithio oriau hyblyg. Gydag oriau craidd o 10yb – 12yp a 2yb – 3yp; Gallwch gwblhau balans eich oriau unrhyw bryd rhwng 7yb a 7yp.

**Dysgu a Datblygu –** Mae GTADC yn cydnabod bod gweithwyr sydd wedi'u hyfforddi'n dda yn allweddol i lwyddiant. Gyda Chanolfan Hyfforddi bwrpasol ym Mhorth Caerdydd a thimau hyfforddi arbenigol, mae digon o gyfleoedd i dyfu a datblygu sgiliau newydd.

**Campfa** - Ble bynnag yr ydych wedi'ch lleoli fel gweithiwr Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, mae mynediad i'n cyfleusterau campfa ar gael i bawb, yn rhad ac am ddim.

**Ymgynghorwyr Iechyd a Ffitrwydd** - Mae ein Hymgynghorwyr Iechyd a Ffitrwydd yn monitro lefelau ffitrwydd staff gweithredol. Gallant hefyd gynnig cyngor iechyd a ffitrwydd i bob gweithiwr ar gais.

**Elusen Diffoddwyr Tân** - Gall pob gweithiwr, ynghyd â'u dibynyddion, fod yn fuddiolwyr yr elusen. Mae'r elusen yn darparu cymorth iechyd a lles i holl gymuned y Gwasanaeth Tân.

**Parcio Ceir –** Nid yw GTADC yn codi tâl am barcio yn unrhyw un o'i safleoedd.

**Hyrwyddwyr Golau Glas Mind –** Fel rhan o'n hymrwymiad parhaus i iechyd a lles, rydym yn cefnogi Rhaglen Golau Glas MIND. Mae'r rhaglen yn cynnig cymorth iechyd meddwl i weithwyr y gwasanaethau brys.

**Iechyd Galwedigaethol -** Nod yr Uned Iechyd Galwedigaethol yw cynyddu effeithlonrwydd iechyd a lles staff i'r eithaf a lleihau'r risgiau y mae staff yn agored iddynt o ganlyniad i arferion gwaith a'r amgylchedd.

**Pensiwn –** Mae staff cymorth yn gymwys i ymuno â chynllun pensiwn Llywodraeth Leol, sy'n gynllun pensiwn â buddion penodedig. Mae cyfraniadau gweithwyr yn seiliedig ar eich cyflog.

**Chwaraeon a Chymdeithasol –** Mae ein hadran chwaraeon a chymdeithasol yn dod â gweithwyr ynghyd o bob adran. Mae ffotograffiaeth, sgïo, crwydro, seiclo, pêl-droed, rygbi, syrffio a golff yn rhai o'r diddordebau a rennir.

**Cyrsiau Cymraeg –** Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn cydnabod pwysigrwydd y Gymraeg yn y gweithle ac yn cynnig mynediad i bob gweithiwr i gyrsiau Cymraeg ar ystod o lefelau i weddu i bob angen.

**Hyderus o ran Anabledd** – Rydym yn falch o fod yn Gyflogwr Ymrwymedig Hyderus o ran Anabledd ardystiedig

Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru

South Wales Fire and Rescue Service

# South Wales Fire and Rescue Service

Recruitment & Retention Team
Fire Service Headquarters
Forest View Business Park
Llantrisant
CF72 8LX

Recruitment Line – 01443 232200
recruitment@southwales-fire.gov.uk

**SCAN ME**

www.southwales-fire.gov.uk/working-with-us